**DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

**ADRAN 16(A) FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF TRAFFIG FFYRDD (CYFYNGIADAU DROS DRO) 1991**

# GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN (DIGWYDDIADAU ARBENNIG) (UWCH GYFRES TRIATHLON A PHARATRIATHLON PRYDAIN) (RHEOLI TRAFFIG DROS DRO) 2025

---

**YN GYMAINT Â BOD** y ffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn ffurfio'r ardal a ddynodwyd i'w defnyddio fel y llwybr i alluogi cynnal 'Uwch Gyfres Triathlon a Pharatriathlon Prydain' ('y Digwyddiad').

**Cyngor** Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato fel "y Cyngor" o hyn ymlaen) yw'r Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y darnau ffyrdd hynny y cyfeirir atynt yn fwy penodol yn Rhan I a Rhan II o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Mae** trefnwyr y Digwyddiad yn dymuno gwahardd cerbydau a beiciau anawdurdodedig rhag defnyddio'r darnau ffyrdd a nodir yn Rhan I a Rhan II o'r Atodlen ddywededig, ddydd Sadwrn 10 Mai, 2025 rhwng 6.00 a.m. a 9.00 p.m. i gynnal y Digwyddiad ac eto ddydd Sul 11 Mai, 2025 mewn perthynas â'r darn ffordd a nodir yn Rhan II o'r Atodlen rhwng 6.00 a.m. ac 1.00 p.m.

**Mae'r** Cyngor yn fodlon y dylid gwahardd cerbydau a beiciau anawdurdodedig ar y darnau ffyrdd hyn er mwyn sicrhau bod y Digwyddiad yn cael ei gynnal mewn modd hwylus.

**YN AWR** gan hynny, mae'r Cyngor, yn unol â'i bwerau, o dan Adran 16(A) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 a'r holl bwerau galluogol eraill, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Bydd y ffyrdd a ddisgrifir yn fwy penodol yn Rhan I a Rhan II o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn cael eu defnyddio fel rhan o'r Digwyddiad ddydd Sadwrn 10 Mai, 2025 rhwng 6.00 a.m. a 9.00 p.m.

2. Bydd y ffordd a ddisgrifir yn fwy penodol yn Rhan II o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn cael ei defnyddio fel rhan o'r Digwyddiad ddydd Sul 11 Mai, 2025 rhwng 6.00 a.m. ac 1.00 p.m.

3. Ac eithrio fel y nodir yn Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur gan gynnwys unrhyw feiciau anawdurdodedig fynd:

(a) ar hyd y darnau ffyrdd hynny a nodir yn Rhan I a Rhan II o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn rhwng 6.00 a.m. a 9.00 p.m. ddydd Sadwrn 10 Mai, 2025, ac

(b) ar hyd y darn ffordd hwnnw a nodir yn Rhan II o'r Atodlen rhwng 6.00 a.m. ac 1.00 p.m. ddydd Sul 11 Mai, 2025.

4. Ni fydd dim yn Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn:

a) yn atal mynediad ar unrhyw adeg i gerddwyr i eiddo sydd ar unrhyw un o'r ffyrdd y mae'r Gorchymyn yn ymwneud â hwy, neu gerllaw iddynt, neu i unrhyw eiddo y gellir ond cael mynediad iddo gan gerddwyr o ffordd o'r fath,

b) yn berthnasol i unrhyw gerbyd modur sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, brigâd dân neu ambiwlans neu ymgymerwr statudol neu awdurdod lleol sy'n mynychu argyfwng,

c) yn berthnasol i unrhyw beth a wneir gyda chaniatâd neu ar gyfarwyddyd cwnstabl yn ei lifrai, nac

d) yn berthnasol i unrhyw gerbyd modur sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r Digwyddiad

5. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ddydd Sadwrn 10 Mai, 2025 rhwng 6.00 a.m. a 9.00 p.m. a bydd yn parhau mewn grym ddydd Sul 11 Mai 2025 rhwng 6.00 a.m. ac 1.00 p.m. a chyfeirir ato fel Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Digwyddiadau Arbennig) (Uwch Gyfres Triathlon a Pharatriathlon Prydain) (Rheoli Traffig Dros Dro) 2025

## YR ATODLEN

### Rhan 1

1. Y darn hwnnw o Ffordd Dosbarth II y B4304 sy'n ymestyn o Gylchfan Lliedi i gyfeiriad cyffredinol y de-ddwyrain hyd at y gyffordd â Chylchfan Llynnoedd Delta.

2. Y darn hwnnw o'r ffordd a adwaenir fel Heol Tŷ Copor sy'n ymestyn o Gylchfan Tŷ Copor hyd at y gyffordd â Heol Northumberland.

3. Y darn hwnnw o'r ffordd a adwaenir fel Heol Northumberland o'r gyffordd â Heol Tŷ Copor hyd at y gyffordd â'r Rhodfa.

### Rhan II

1. Y darn hwnnw o'r ffordd a adwaenir fel Traeth Ffordd yn Noc y Gogledd o bwynt sydd 80 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â Chylchfan Lliedi am bellter o 140 metr i gyfeiriad y gorllewin.

19076

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** )
ar y ddogfen hon )
ar y 14 o Ebrill , 2025 )
ym mhresenoldeb:- )

**STEVEN P MURPHY**

**Pennaeth Y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**